# Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021

**2021 dsc 4**

## RHAN 7

CYFFREDINOL

### 76 Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd: y weithdrefn

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i'r canlynol—

(a) Cod yr Hyn sy'n Bwysig;

(b) y Cod Cynnydd.

(2) Cyn dyroddi neu ddiwygio'r Cod, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) ymgynghori â'r personau y maent yn meddwl eu bod yn briodol (os oes rhai), a

(b) gosod gerbron Senedd Cymru ddrafft o'r Cod arfaethedig (neu, yn achos diwygiadau, o'r Cod diwygiedig arfaethedig).

(3) Os yw'r Senedd, cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod, yn penderfynu peidio â chymeradwyo drafft a osodwyd ger ei bron o dan is-adran (2)(b), ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod neu'r Cod diwygiedig ar ffurf y drafft hwnnw (nac ar unrhyw ffurf arall, oni bai bod drafft o'r ffurf arall honno wedi ei osod gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b)).

(4) Os na wneir unrhyw benderfyniad o'r fath cyn diwedd y cyfnod hwnnw mewn cysylltiad â drafft a osodwyd gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b), rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (neu'r Cod diwygiedig) ar ffurf y drafft.

(5) O ran y cyfnod o 40 niwrnod, mewn perthynas â drafft—

(a) mae'n dechrau â'r diwrnod y gosodir y drafft gerbron y Senedd o dan is-adran (2)(b), a

(b) nid yw'n cynnwys unrhyw gyfnod y mae'r Senedd wedi ei diddymu neu y mae'r Senedd mewn toriad am fwy na phedwar diwrnod ynddo.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 76. (See end of Document for details)*

(6) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag unrhyw bersonau ynghylch Cod y cyfeirir ato yn is-adran (1) cyn i'r adran hon ddod i rym, mae'r ymgynghoriad hwnnw i'w drin fel pe bai'n cyflawni'r ddyletswydd yn is-adran (2)(a) mewn perthynas â'r Cod hwnnw.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 76 mewn grym ar 30.4.2021, gweler **a. 84(1)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/06/2022.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, Adran 76.